# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19 Hydref 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 25 Hydref 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 1 Tachwedd 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Menna Jones
Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

---

**PWNC – Cynllun ad-dalu costau teithio**

---

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu'r cynllun ar sail dros dro, yn weithredol o'r 1af o Hydref 2022 hyd nes yr 31ain o Fawrth 2023.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Menna Jones |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Geraint Owen<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 19/10/2022 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : | MKJones |

**Pwnc :** Cynllun ad-dalu costau teithio

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :** Mabwysiadu'r cynllun ar sail dros dro, yn weithredol o'r 1af o Hydref 2022 hyd nes yr 31ain o Fawrth 2023.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :** Mae cynllun dros dro wedi ei gynnig gan y cyflogwyr a'r undebau llywodraeth leol yma yng Nghymru, sydd yn rhoi ychwanegiad o 5 ceiniog y filltir ar ben y 45 ceiniog y filltir a roddir i staff ar hyn o bryd os ydynt yn teithio ar fusnes y Cyngor. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw penderfynu a ddylid mabwysiadu'r cynllun ai peidio. Gweler Atodiad 1 am fanylion y cynllun.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

1. Mae'r Cyngor hwn, fel y mwyafrif llethol o gynghorau eraill Cymru, yn talu costau teithio i staff ar sail 45c y filltir. Mae'r gyfradd hon wedi ei seilio ar raddfeydd a bennir gan Lywodraeth Llundain, ac nid ydynt wedi eu hadolygu ers blynyddoedd lawer. Yn sgil hynny a'r cynnydd aruthrol mewn costau petrol a diesel, bu i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ysgrifennu at Lywodraeth Llundain yn gofyn a oedd ganddynt gynlluniau i adolygu'r gyfradd. Derbyniwyd ymateb gan y Llywodraeth a oedd yn dweud i bob pwrpas nad oes bwriad ar hyn o bryd i adolygu'r gyfradd.

2. Yn dilyn o hynny, bu'r undebau llafur a'r cyflogwyr ar lefel Cymru yn cydweithio ar ddatblygu cynllun dros dro a fyddai'n rhoi'r gallu i gynghorau unigol gynyddu'r raddfa y filltir am gyfnodau dros dro, i adlewyrchu unrhyw gynnydd penodol mewn prisiau petrol a diesel. Mae arweinwyr cynghorau Cymru bellach wedi rhoi eu cefnogaeth i'r bwriad sydd y tu ôl i'r cynllun.

3. Dylid nodi serch hynny nad oes rheidrwydd ar i unrhyw Gyngor fabwysiadu'r cynllun gan fod y cyfrifoldeb cyfreithiol am yr agwedd hon o delerau cyflogaeth yn gorwedd ar bob cyflogwr yn unigol; yn hynny o beth fe wyddom eisoes nad yw pedwar o'r awdurdodau lleol yma yn y gogledd yn bwriadu mabwysiadu'r protocol; nid yw'n glir eto beth yw bwriad y pumed Cyngor. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd hi'n ymddangos fel pe bai rhai awdurdodau yn y canolbarth a'r de yn mabwysiadu'r cynllun.

4. Ar yr un pryd, mae'n glir mai'r disgwyliad o gyfeiriad yr undebau llafur ydi fod pob awdurdod yn mabwysiadu'r cynllun, er mwyn cynorthwyo staff â'u costau teithio mewn cyfnod o galedi ariannol.

5. Er mwyn cynorthwyo'r drafodaeth, mae'r Adran Gyllid yn amcanu'r costau posib canlynol, wedi eu seilio ar batrymau teithio staff yn ystod y flwyddyn gyllidol ddiwethaf, gan ychwanegu 5 ceiniog y filltir yn unol â'r protocol.

**<u>Ar sail cyfartaledd y milltiroedd a deithwyd dros y flwyddyn 2021/22</u>**
Cost misol i'r Cyngor o £16,597

**<u>Ar sail cyfartaledd y milltiroedd a deithwyd dros y tri mis olaf o 2021/22</u>**
Cost misol i'r Cyngor o £17,830

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Mae'r penderfyniad a geisir yn ymateb i'r risg mae'r Cyngor yn ei wynebu wrth i'r gweithlu – yn enwedig gweithwyr yn y maes Gofal – wynebu costau ychwanegol arwyddocaol wrth deithio ar ran y Cyngor, a hynny yn arwain at drafferthion cadw a recriwtio staff. Ar sail patrwm teithiau gwaith, rydym yn amcangyfrif bydd yr ychwanegiad hwn yn costio oddeutu £17,800 y mis yn ychwanegol i'r Cyngor. Tra bydd hyn yn ychwanegu i'r gorwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn, credaf ei fod yn gam rhesymol i liniaru risgiau'r Cyngor, a disgwylir y bydd pob rheolwr o fewn y Cyngor yn cadw golwg fanwl ar deithio busnes o fewn eu gwasanaethau er mwyn rheoli cyfanswm y teithiau a gyflawnir.

**Swyddog Monitro** – Fel y nodir yn yr adroddiad ac yn sylwadau cefnogol y Prif Swyddog Cyllid mae'r argymhelliad yma yn ymateb i sefyllfa o risg yn deillio o gynnydd mewn costau tanwydd sydd gyda ardrawiad penodol ar rai gwasnaethau allweddol . Pwyleisir hefyd nad yw yn cynrychioli newid parhaol yn yr amodau cyflgaeth . Rwy'n fodlon felly for hyn a argymhellir yn ymateb priodol a chymsurol i'r sefyllfa.

**Aelod/au Lleol** – Dim yn berthnasol

**02 Medi 2022**
**Fersiwn 3**

# Protocol ar y cyd

## Cyfraddau milltiredd mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Mae hwn yn brotocol ar y cyd rhwng Arweinwyr awdurdodau lleol Cymru, wedi'i hwyluso drwy Fwrdd Gweithredol CLlLC ac undebau llafur Cyd-Gyngor Cymru, i gyflwyno mesur sy'n darparu cynnydd dros dro mewn costau ad-dalu milltiredd yn fyr dymor i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y farchnad o ran cyfraddau tanwydd.

Mae'r protocol ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn unol â'r polisïau lleol ac yn drefniant dros dro tan 31 Mawrth 2023 neu nes bo cynnydd yng nghyfradd AMAP a benderfynir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, p'run bynnag sydd gynharaf. Bydd y protocol yn cael ei ddisodli'n awtomatig gan unrhyw gynnydd yng nghyfradd AMAP CThEF.

## Rhagarweiniad

Mae cyflogwyr ac undebau llafur yn cydnabod effaith yr argyfwng costau byw presennol ar y gweithlu a'r pwysau uniongyrchol a gyflwynir o ganlyniad i gynnydd nas rhagwelwyd mewn costau tanwydd.

Mae cyfradd ad-dalu cyfraddau milltiredd ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol yn cael ei benderfynu gan bob awdurdod lleol ac mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru'n mabwysiadu cyfraddau AMAP CThEF.

Mae cyfradd AMAP CThEF yn darparu cyfraddau a gymeradwywyd ar gyfer ad-dalu milltiredd heb gostau treth neu yswiriant gwladol. Fodd bynnag, mae'r gyfradd wedi aros yr un fath ers 2011/12 ac mae dadl wedi'i chyflwyno i Gyd-gyngor Cymru nad yw hyn yn cyd-fynd â'r costau tanwydd presennol.

Nid yw'r protocol yn disodli trefniadau lleol ond yn cynnig, drwy gytundeb ar y cyd rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur yng Nghymru, trefniant dros dro sydd wedi'i gyflwyno oherwydd cynnydd mewn cyfraddau tanwydd sy'n rhagori ar drothwy a gytunwyd, mae'r trefniant yn cael ei dynnu pan fydd cyfraddau tanwydd yn gostwng yn is na'r trothwy hwnnw.

Bydd y trefniant, ar ôl ei gyflwyno a nes y tynnir y trefniant yn ôl, yn galluogi i'r rhai sy'n gymwys drwy bolisïau awdurdodau lleol i hawlio swm ychwanegol a gytunwyd fesul milltir hyd at uchafswm a gytunwyd, i liniaru yn erbyn costau tanwydd uchel parhaus. Bydd y taliad ychwanegol yn destun treth ac yswiriant gwladol.

**02 Medi 2022**
**Fersiwn 3**

## Y protocol

Bydd y protocol yn darparu:

1. Y swm a gytunwyd ar gyfer ad-daliad
2. Y trothwy lle byddai’r cynnydd yn dod i rym
3. Pwynt cyfeirio annibynnol i arwain y broses o wneud penderfyniadau
4. Y pwynt lle byddai’n rhagori ar y trothwy i gyflwyno cynnydd neu’r pwynt lle tynnir y cynnydd yn ôl.
5. Crynodeb o’r trothwy, pwynt cyfeirio a’r gyfradd ad-dalu.

### Y swm a gytunwyd ar gyfer ad-daliad

Y gallu i hawlio taliad ychwanegol o 5 ceiniog y filltir lle y telir treth ac Yswiriant Gwladol a 3 ceiniog y filltir lle na thelir treth ac Yswiriant Gwladol, gydag ad-daliad o hyd at uchafswm o 50 ceiniog y filltir, pan fydd trothwy a gytunwyd yn cael ei dorri. Bydd y gallu i hawlio taliad ychwanegol yn cael ei dynnu’n ôl pan fydd asesiad cyfradd tanwydd CThEF yn dychwelyd i fod yn is na’r trothwy.

### Trothwy

Y trothwy a gytunwyd yw £1.50 y litr neu 15.2 ceiniog y filltir.

£1.50 y litr neu 15.2 ceiniog y filltir fel y penderfynwyd gan Asesiad Ymgynghorol Cyfradd Tanwydd CThEF, yw’r pwynt lle y dechreuir gallu hawlio’r taliad ychwanegol a’r pwynt os yw’n is bydd yn cael ei dynnu’n ôl.

### Pwynt cyfeirio

Bydd asesiad Ymgynghorol Cyfraddau Tanwydd CThEF cyfraddau tanwydd ymgynghorol - GOV.UK (www.gov.uk) yn cael ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio.

Mae cyfraddau Tanwydd Ymgynghorol CThEF yn wahanol i gyfraddau AMAP a gyhoeddir, maent yn gyfraddau ymgynghorol ar gyfer defnyddwyr ceir cwmni ac yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio prisiau tanwydd yn chwarterol.

Mae cyfraddau tanwydd ymgynghorol CThEF yn cael eu defnyddio yn y cyd-destun hwn fel mesur gwrthrychol i hysbysu’r swm a gytunir ar gyfer ad-daliad, y trothwy a’r pwyntiau sbardun.

**02 Medi 2022**
**Fersiwn 3**

## Pwyntiau Sbardun

Mae'r waelodlin wedi'i gosod yn defnyddio'r gyfradd ad-dalu a ddefnyddiwyd rhwng 1 Mehefin 2021 a 31 Awst 2021 sef 13 ceiniog y filltir ar gyfer cerbyd 1401 - 2000 cc yn rhedeg ar 44.9 milltir y galwyn. Mae hyn yn gyfystyr â £5.84 y galwyn neu £1.28 y litr.

Mae lefel goddefiant yn uwch na'r waelodlin o oddeutu 15% yn darparu lefel uwch o £6.80 y galwyn neu £1.50 y litr a dyma'r pwynt sbarduno i gyflwyno'r gyfradd a'r pwynt lle byddai'n cael ei dynnu'n ôl.

Mae hyn bron yn hafal i 2 geiniog y filltir yn uwch na chyfradd AMAP. Byddai gallu hawlio 5 ceiniog ychwanegol y filltir ar y pwynt, ar ôl 20% o dreth ac Yswiriant Gwladol, yn darparu oddeutu 3.5 ceiniog a byddai hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd pellach ym mhris tanwydd a gyhoeddir o dan Asesiad Ymgynghorol Cyfraddau Tanwydd CThEF o hyd at 17.9 ceiniog y filltir.

Pe bai Asesiad Ymgynghorol Cyfraddau Tanwydd CThEF yn cyrraedd neu'n rhagori ar ad-daliad o 18 ceiniog y filltir bydd adolygiad pellach.

## Crynodeb

| Pris tanwydd, ceiniog y litr | Ceiniog y filltir (ppm) | Pwynt cyfeirio<br>Cyfradd Tanwydd Ymgynghorol CThEF (ppm) - gan gynnwys dyddiad cyhoeddi | Y swm a gytunwyd ar gyfer ad-daliad | Cynnydd net |
|---|---|---|---|---|
| 1.30 (gwaelodlin) | 13.1 | 13 (06/21 | Hyd at 45 ppm | Cyfradd AMAP heb dreth neu Yswiriant Gwladol |
| Ar neu'n uwch na 1.50<br>(trothwy) | 15.2 | 15 (03/22)<br>17 (06/22) | Hyd at 50 ppm | Oddeutu 3.5ppm ar ôl treth ac Yswiriant Gwladol |
| | | 18 | Sbardun ar gyfer Adolygiad | I'w benderfynu |

**CYMERADWYWYD**

**02 Medi 2022**
**Fersiwn 3**

## Cymhwyso

Bydd y cynnydd yn berthnasol i'r holl fathau o danwydd gan gynnwys ceir trydan, hybrid a disel.

## Gweithrediad

Bydd gweithrediad yn gofyn i'r awdurdodau lleol fabwysiadu'r protocol a chymhwyso ei ddarpariaethau fel trefniant dros dro o fewn polisïau lleol ar gyfraddau milltiredd.

## Cyfnod

Daw'r protocol dros dro i rym o'r 26 Medi 2022 a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae hyn yn destun adolygiad a gellir ei addasu drwy gytundeb ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i ailystyried y trothwy fel rhan o unrhyw adolygiad.

**Llofnod:**



**Ar ran Bwrdd Gweithredol CLILC**
Cyng Anthony Hunt

(Llefarydd y Gweithlu a Chadeirydd, Cyd-gyngor Cymru)



**Ar ran Undebau Llafur NJC**

Darron Dupre

(Cyd-ysgrifennydd Undebau Llafur, Cyd-gyngor Cymru)

**Dyddiad: 23 Medi 2022**